

RYDYM YN **recriwtio**

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Porthor Cegin

Gwybodaeth Allweddol

Cyflog: £12.26 yr awr

Oriau: Oriau llawn amser, rhan amser ac achlysurol ar gael

Ynglŷn â'r Swydd

Yn y swydd hon, rydych yn hanfodol er mwyn cadw'r gegin i redeg yn effeithlon. Byddwch yn helpu'r tîm o Gogyddion i baratoi rhywfaint o'r bwyd, megis torri ffrwythau a llysiau, sicrhau fod llestri ac offer yn cael eu glanhau'n drylwyr a'u rhoi yn ôl yn eu llefydd. Bydd eich gwaith hefyd yn cynnwys cadw'r gegin a'r ystafell stoc yn lân, taclus a threfnus.

Byddwch hefyd yn helpu'r Is-Gogydd a'r Prif Gogydd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rheolau hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch ym mhob maes.

Mae'r pecyn yma ar gael yn y Gymraeg hefyd / This pack is also available in Welsh



Porthor Cegin

Amdanoch Chi

Yn y swydd hon, mae personoliaeth yn llawer mwy pwysig na chymwysterau. Mae ein ceginau yn rhedeg yn hynod o effeithiol felly bydd angen i chi fod yn chwaraewr tîm da sy'n gallu gweithio'n gyflym. Rhaid i chi hefyd fod yn unigolyn glân a thaclus, sy'n cymryd cyfarwyddiadau'n dda.

Byddwn yn plicio, torri, golchi ac weithiau'n sgrwbio, felly mae angen i chi fod yn barod i dorchu eich llewys i wneud pethau'n lân!

Rydym yn hoffi buddsoddi yn ein staff, felly os ydych chi eisiau datblygu gyrfa yn y gegin, byddwn yn hapus i'ch cefnogi chi i wneud hyn gyda hyfforddiant a chymwysterau.



Porthor Cegin

Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd





Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiâu teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Lleoliad: Mae swyddi ar gael ar draws y Rhyl a Phrestatyn, a allai gynnwys Bwyty 1891, SC2, Cwt y Traeth a Chanolfan Fowlio Gogledd Cymru.

Dyddiad Cau: 24.03.25

Ymgeisiwch ar ein gwefan: <https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/>